

## CYNGOR OS CEWCH EICH ARESTIO

Dywedwch “**DIM SYLW**” i bob cwestiwn yn ystod sgwrs anffurfiol, cael cymryd eich enw (bwcio i mewn), a chyfweliadau gyda'r heddlu.

Pan fyddwch yn cyrraedd gorsaf yr heddlu, efallai y byddwch am roi eich enw, cyfeiriad a dyddiad geni i gyflymu eich rhyddhau. Er eich diogelwch eich hun ac er diogelwch pobl eraill, peidiwch ag ateb unrhyw gwestiynau pellach.

Mae gennych yr hawl i **GYNGOR CYFREITHIOL AM DDIM** yng ngorsaf yr heddlu.

Yn aml nid yw cyfreithwyr ar ddyletswydd yn arbenigwyr mewn protest, felly argymhellwn eich bod yn gofyn i'r heddlu gysylltu ag un o'r cwmnïau cyfreithiol canlynol i gael **CYNGOR CYFREITHIOL AM DDIM**:

**HJA - 0808 274 8226**

**EFBW - 0207 790 4032**

**PEIDIWCH** â derbyn **RHYBUDDIAD** heb gyngor gan un o'r cwmnïau a restrir uchod. Cyfaddefiad o euogrwydd yw rhybuddiad ac mae'n mynd ar gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu. Mae gennych yr hawl i rywun gael gwybod eich bod wedi'ch arestio. Dewiswch Swyddfa Gefn XR (oni bai y trefnir yn wahanol): **07749 335574**

Mae gennych hawl hefyd i gael cyfieithydd os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf. Os ydych, neu'n ymddangos fel eich bod o dan 18 oed, dylid galw oedolyn priodol.

## CWESTIYNAU CYFREITHIOL?

Os ydych chi'n dyst i arestiad, eisiau cefnogaeth, os oes gennych chi unrhyw gwestiynau cyfreithiol am brotest neu os ydych chi wedi cael eich arestio mewn gweithred XR, cysylltwch ag:

[xr-legal@riseup.net](mailto:xr-legal@riseup.net)

**07749 335574**

Gwirfoddolwyr annibynnol yw Arsyllwyr Cyfreithiol sy'n casglu tystiolaeth ar ran protestwyr ac yn gweithredu i atal bygythiadau a chamymddwyn gan yr heddlu. Darllenwch fwy am eich hawliau a deddfwriaeth brotest yn:

[www.informeddissent.info](http://www.informeddissent.info)

[www.greenandblackcross.org](http://www.greenandblackcross.org)

**STOPIO A CHWILIO:** Nid oes rhaid i chi roi unrhyw fanylion personol (enw, cyfeiriad ac ati) o dan unrhyw bŵer stopio a chwilio. Gweler y gwefannau uchod am ragor o fanylion. Yn gyfreithiol, rhaid dweud wrthych beth yw'r rheswm dros y chwiliad ac o dan ba bŵer yr ydych chi cael eich chwilio. Gofynnwch i'r heddlu **“O Dan Ba Bŵer?”** os ydynt am eich chwilio neu os ydynt yn gofyn i chi wneud unrhyw beth arall.

**Llenwch y ffurflen ar-lein hon ar ôl i chi gael eich rhyddhau fel y gallwn gynnig**

**Cymorth Ôl-Arestio i chi:** <https://arrestwatch.info/pss>

**Am gefnogaeth barhaus yn dilyn arestio:** [xr-arrestwelfare@protonmail.com](mailto:xr-arrestwelfare@protonmail.com)